## Polisi Derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant 2016-2017

Mae Polisi Derbyn Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant fel a ganlyn:

Ethos Catholig sydd gan yr ysgol. Cafodd ein hysgol ei sefydlu gan yr Eglwys Gatholig i ddraprau addysg i deuluoedd Catholig yn bennaf sy'n byw ym Mhlwyf Aloysius Sant, Y Gurnos, Merthyr Tudful. Caiff yr ysgol ei gweinyddu gan ei Chorff Llywodraethu yn unol â'i Gweithred Ymddiriedolaeth a'i Offeryn Llywodraeth ac mae'n ceisio bod yn dyst i Iesu Grist ar bob achlysur. Gofynnwn i'r holl rieni sy'n gwneud cais am le yn ein hysgol barchu ein hethos a'i bwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y rhiant, nad yw'n yn rhannau ffydd yr ysgol hon, i wenud cais am le yma ac i gael ei ystyried am le yma.

Nifer derbyn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016/17 yw 23.
Os yw'r nifer o ymgeiswyr yn fwy na'r rhif derbyn, bydd y Llywodraethwyr yn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio canlynol i'r ysgol, ar yr amod fod y Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r cais hwnnw cyn bod penderfyniadau ar dderbyn yn cael eu gwneud.

### Meini Prawf Gordanysgrifio

1. Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (ALl) a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ond nad ydynt mwyach am eu bod wedi eu mabwysiadu (neu am eu bod wedi dyfod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig).

2. Plant Catholig sydd wedi eu bedyddio sy'n byw yn nalgylch yr ysgol (Mae dalgylch yr ysgol ym Mhlwyf Aloysius Sant, Y Gurnos, Merthyr).

3. Plant Catholig sydd wedi eu bedyddio sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sy'n datgan blaenoriaeth i fynychu Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant.

4. Plant i rieni Catholig sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.

5. Plant i rieni Catholig sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sy'n datgan blaenoriaeth i fynychu Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant.

6. Plant â brodyr a chwiorydd a fydd ar gofrestr yr ysgol pan fydd y disgybl sy'n ymgeisio yn cael ei dderbyn. (Gweler Nodyn 1).

7. Plant nad ydynt yn Gatholig y mae eu rhieni am i'w plant gael addysg

Gristnogol.

**Nodyn 1**

Diffiniad o frawd neu chwaer yw:
Brawd neu chwaer sy'n rhannu'r un rhieni;
Hanner brawd neu hanner chwaer, pan fo dau blentyn yn rhannu'r un rhiant cyffredin;
Llysfrawd neu lyschwaer, pan fo dau blentyn yn perthyn drwy briodas y rhieni;
Rhaid bod y plant yn byw'n barhaol yn yr un cartref.

Os bydd gordanysgrifio o fewn categori, bydd y Llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol a gaiff ei benderfynu gan y pellter cerdded byraf o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i brif fynedfa'r ysgol. Caiff pellteroedd eu cyfrifo gan system "mapio ysgolion" yr awdurdod lleol.

**Genedigaethau lluosog**

Os, wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, bod y plentyn olaf i'w dderbyn yn un o  enedigaeth lluosog, e.e. efeilliaid neu dripledi, yna bydd y Corff Llywodraethu'n derbyn y brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd eraill hefyd.

**Rhestrau Aros**

Bydd rhestrau aros ar gyfer derbyn yn parhau ar agor hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd ac yna byddant yn cael eu gwaredu. Y Corff Llywodraethu fydd yn cadw'r rhestr aros. Nid yw cynnwys enw plentyn ar y rhestr aros yn meddwl y bydd lle ar gael yn y pen draw.

**Gweithdrefn Derbyn**

Mae dyddiad cau ceisiadau ar gyfer derbyn yr un peth ag ysgolion yr Awdurdod Addysg. Caiff hwn ei gyhoeddi yn "Canllawiau i Bolisi a Threfniadau Derbyn Ysgolion" yn flynyddol. Gellir cael copi ar-lein yma www.merthyr.gov.uk

Dylid gwneud cais i'r Corff Llywodraethu drwy Glerc Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant, Cedar Way, Y Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9PA (Ffôn: 01685 351809) a fydd yn darparu ffurflen gais derbyn.

Noder: Pan fo plentyn yn dechrau ysgol yn y babanod am y tro cyntaf, dylai'r cais derbyn, yn ddelfrydol, gael ei wneud yn ystod tymor yr Hydref cynt er mwyn cynorthwyo'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth i gynllunio eu rhaglen ymsefydlu cyn-ysgol. Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar yr amod fod rheswm rhesymol ar gyfer ei gyflwyno ar ôl y dyddiad cau a roddir. Bydd ceisiadu oddi wrth Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu derbyn pan fydd ceisiadau o'r fath yn cael yn dod i law.

**Gweithdrefn Apeliadau**

Gall rhieni sydd am apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr i wrthod lle i'w plentyn yn yr ysgol, wneud hynny yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Llywodraethwyr. Caiff apeliadau eu clywed gan banel annibynnol. Mae'n bosibl bydd y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol yn gwneud trefniadau ar y cyd ar gyfer apeliadau.

**Debyn i'r Meithrin**

Mae dosbarth Meithrin Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant yn anenwadol ond bydd blaenoriaeth o ran ceisiadau am le yn cael ei roi i:

i) Blant sydd yng nghofal yr Awdurdod Lleol a phlant a oedd yn derbyn gofal gynt ond nad ydynt bellach am eu bod wedi eu mabwysiadu (neu wedi dyfod yn destun gorchymun preswylio neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig).

ii) Plant â brodyr a chwiorydd sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol. (gweler Nodyn 1).

iii) Plant sydd wedi mynychu Dechrau'n Deg Cyn-ysgol neu'r Grŵp Cyn-Meithrin.

iv) Plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Gatholig Aloysius Sant.

**Nodyn 1**
Y diffiniad o frawd neu chwaer yw:
Brawd neu chwaer yn rhannu'r un rhieni;
Hanner brawd neu hanner chwaer, pan fo dau blentyn yn rhannu'r un rhiant;
Llys frawd neu lys chwaer, pan fo dau blentyn yn perthyn drwy briodas y rhieni;
Rhaid bob y plant yn byw yn yr un cartref yn barhaol.

**Ni fydd** presenoldeb yn nosbarth Meithrin Aloysius Sant yn gwarantu lle yn nosbarth derbyn yr ysgol. Rhaid cyflwyno ffurflen gais i'r Corff Llywodraethu ar yr adeg priodol.

Mae dyddiad cau ceisiadau ar gyfer derbyn yr un peth ag ysgolion yr Awdurdod Addysg. Caiff hwn ei gyhoeddi yn "Canllawiau i Bolisi a Threfniadau Derbyn Ysgolion" yn flynyddol. Gellir cael copi ar-lein yma www.merthyr.gov.uk

**â derbyn i'r D**